YR EGLWYS YNG NGHYMRU | THE CHURCH IN WALES

CORFF CYNRYCHIOLWYR YR EGLWYS YNG NGHYMRU
THE REPRESENTATIVE BODY OF THE CHURCH IN WALES

# GWYDR LLIW NEWYDD YN EGLWYSI CYMRU

# NODYN CYFARWYDDYD I BLWYFI

Pwrpas y ddogfen hon yw darparu gwybodaeth i blwyfi am gomisiynu gwydr lliw newydd mewn eglwysi. Mae'n trafod ystyriaethau dylunio, dewis artist gwydr lliw, creu briff, cadw golwg ar gynnydd, gwneud cais am hawleb a chroesawu'ch ffenestr newydd.

## Cyflwyniad

Mae gwydr lliw yn ffurf gelfyddydol yr ydym yn ei hadnabod yn syth, a gysylltir ag eglwysi a chadeirlannau'n arbennig. Mae yna hanes hir a nodedig i ddefnyddio gwydr lliw yn eglwysi Cymru yn dechrau o'r oesoedd canol ymlaen, er bod y rhan fwyaf o'r gwydr lliw a welwn heddiw yn dyddio o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae ei berthynas arbennig â phensaernïaeth yr adeilad yn golygu na ellir ei ystyried yn ddim mwy na "ffenestr liw" sy'n cyflawni'r un swyddogaeth ag unrhyw ffenestr arall. Wrth gwrs fe ddylai gadw'r tywydd allan a gadael y golau i mewn, ond dylai gyd-fynd â'r ffenestri presennol a thu mewn yr eglwys hefyd. Mae'n hollbwysig felly eich bod chi'n rhoi ystyriaeth ofalus i gynllun a lleoliad y ffenestr newydd a sut y bydd yn cyd-fynd ag elfennau eraill yr adeilad.

Mae'r adrannau canlynol yn tynnu sylw at y pethau sydd angen i chi feddwl amdanynt wrth ystyried gosod ffenestr liw newydd yn eich eglwys.

## 1. Pam ydych chi eisiau ffenestr gwydr lliw newydd?

Beth yw'ch rhesymau dros fod eisiau ffenestr gwydr lliw newydd? Ydych chi am gael un newydd yn lle hen un sydd wedi'i difrodi? Os felly, a fyddai'n bosibl ei hadfer yn lle hynny? Byddai hyn yn haws ac yn llai costus o bosibl na gosod un newydd gyda chostau cysylltiedig dylunio, creu a gosod. Efallai eich bod chi'n meddwl newid ffenestr gadarn ond clir? Os felly, ystyriwch a oedd yr eglwys wedi'i chynllunio'n wreiddiol i fod â ffenestri gwydr clir (ddim yn anghyffredin mewn eglwysi Sioraidd ac o'r 19eg ganrif). Gallai newid un o'r rhain dywyllu tu mewn yr eglwys neu darfu ar ei pherthynas â'r ffenestr eraill, yn enwedig os ydynt yn cael eu cadw'n glir. Mae'n arbennig o bwysig adnabod, trwsio a chadw gwydr o'r 18fed ganrif sy'n cynnwys gwydr plaen wedi'i chwythu â llaw, gan nad yw ei ddiddordeb hanesyddol a'i ansawdd yn cael ei gydnabod na'i werthfawrogi'n aml. Gall unrhyw waith haearn hanesyddol sydd wedi goroesi, sy'n dal y ffenestr yn ei le fod yn arwyddocaol hefyd.

Weithiau bydd plwyfi am gael ffenestr gwydr lliw newydd gan fod rhywun wedi gadael cymynrodd neu rodd iddynt. Efallai fod y rhoddwr wedi dweud bod yr arian i'w ddefnyddio'n benodol ar gyfer ffenestr gwydr lliw newydd. Er bod hon yn weithred hael gan y rhoddwr gall greu problemau i'r plwyf. Beth os nad oes angen ffenestr wydr lliw newydd mewn gwirionedd? Mae'r plwyf yn cael ei roi mewn sefyllfa anodd wedyn gan nad oes sicrwydd y bydd caniatâd yn cael ei roi i osod ffenestr newydd yn lle un arall. Byddai'n well trafod unrhyw gymynroddion o'r fath gyda'r rhoddwr ymlaen llaw gan y gallai'r arian fod yn fwy

buddiol yn rhywle arall yn yr eglwys. Nid yw hyn yn golygu gwaith trwsio o reidrwydd, ond gallai fod ar fath arall o goffâd, fel gwaith celf unigol neu ddarn o ddodrefn.

Weithiau bydd y plwyf a'r gymuned ehangach am goffáu person sydd wedi gwneud llawer dros eu hardal leol drwy gael cofnod parhaol o'u gweithredoedd ar ffurf ffenestr gwydr lliw newydd. Yn yr un modd, efallai y byddant am gofio digwyddiad lleol arbennig. Er y byddai ffenestr gwydr lliw yn cynnig ei hun i bethau o'r fath, mae angen i chi ystyried o hyd a yw'n briodol ar gyfer yr eglwys a'r gymuned leol. Eto, efallai y byddai rhyw ffurf arall o goffâd yn fwy priodol.

I benderfynu ai ffenestr gwydr lliw newydd yw'r cam cywir i blwyf, siaradwch â'r "rhanddeiliaid" h.y. y bobl sydd â diddordeb yn y prosiect fel y rhoddwyr, y gymuned, y gynulleidfa ac ati. Trafodwch opsiynau eraill yn lle ffenestr newydd ac ymarferoldeb pob un. Os ydych chi i gyd yn cytuno mai ffenestr newydd yw'r cam cywir ar ddiwedd y dydd yna mae angen i chi sefydlu grŵp bach o bobl i weithredu'r prosiect. Dylai'r grŵp hwn gynnwys pobl o'r grŵp rhanddeiliaid ehangach ac unrhyw un sydd â phrofiad o brosiectau eglwys tebyg, neu sydd â rhywfaint o arbenigedd gyda gwydr lliw neu gomisiynu gwaith celf (os oes modd). Y tîm hwn ddylai redeg y prosiect ond dylai adrodd yn ôl i'r holl randdeiliaid yn rheolaidd i'w cynghori ar gynnydd.

## 2. Ystyriaethau dylunio

Dyma'r rhan bwysicaf o'r prosiect mae'n siŵr. Mae'n rhaid i chi fod yn siŵr bod y dyluniad ar gyfer eich ffenestr newydd yn briodol ar gyfer eich eglwys ac y bydd yn dal i fod yn addas mewn blynyddoedd i ddod. Felly pwy sy'n dewis y dyluniad terfynol? Ai'r grŵp prosiect, y plwyf neu'r gymuned ehangach, neu ydych chi'n gadael y penderfyniad i'r artist gwydr lliw? Mae yna sawl trywydd y gallwch eu dilyn ar gyfer hyn ac fe'u trafodir yn Adran 3 (*Dewis Dyluniad ac Artist).*

Fodd bynnag, hyd yn oed os ydych chi'n gadael y dyluniad terfynol i'r artist, bydd angen iddo/iddi gael briff i weithio ohono, fell bydd angen cael rhywfaint o ddealltwriaeth sylfaenol am ystyriaethau dylunio arnoch er mwyn paratoi'r briff. Mae'r canlynol yn rhoi syniad o'r pethau mae gofyn i chi eu hystyried a beth y gellid ei gynnwys yn y briff dylunio.

### a) Traddodiadol neu gyfoes?

Mae'r rhan fwyaf o wydr lliw a welwn yn Eglwysi a Chadeirlannau Cymru heddiw yn dyddio o'r 19eg ganrif pan gafodd llawer o'r adeiladau eu "hadfer" gan bobl Oes Fictoria. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn darlunio straeon o'r Beibl, yn cynnwys ffigyrau amlwg fel Crist, y Forwyn Fair, yr apostolion, seintiau ac angylion. Y themâu traddodiadol hyn oedd fwyaf poblogaidd mewn ffenestri ar ddechrau'r 20fed ganrif, er bod arddulliau newydd a themâu mwy cyfoes, fel y Rhyfel Byd Cyntaf, wedi dechrau ymddangos hefyd. Erbyn canol y ganrif dechreuodd moderniaeth ddylanwadu ar gynllun ffenestri, a roddodd wedd newydd ar straeon traddodiadol y Beibl, yn ogystal â chyflwyno delweddau mwy haniaethol mewn ffenestri hefyd.

Wrth benderfynu a fyddai ffenestr draddodiadol neu fwy modern yn briodol i'ch eglwys chi, mae angen i chi ystyried arddull bensaernïol yr adeilad a sut y bydd y ffenestr newydd yn cysylltu â hynny a ffenestri eraill, gosodiadau a ffitiadau. Yn ddelfrydol, dylai'r ffenestr newydd ategu'r elfennau hyn i gyd neu rai ohonynt. Nid yw hyn yn golygu o reidrwydd nad oes lle i ffenestr gyfoes mewn eglwys sy'n cynnwys nifer o ffenestri gwydr lliw "traddodiadol". Gallech, er enghraifft, gynnwys lliwiau'r ffenestri presennol mewn ffenestr

gyfoes newydd a allai fod yn fwy haniaethol ei natur, ond yn dal i adlewyrchu thema Feiblaidd (e.e. bywyd y sant y mae'r eglwys wedi'i chysegru iddo). Neu efallai y gallai'ch ffenestr newydd adlewyrchu prif arddull tu mewn yr eglwys (e.e. y Mudiad Celfyddyd a Chrefft) ond dangos digwyddiad cyfoes a ddigwyddodd yn lleol.

Ceisiwch ymweld ag eglwysi a chadeirlannau eraill i gael syniadau ar gyfer eich ffenestr newydd. Beth sy'n gweithio a beth sydd ddim yn gweithio? Edrychwch ar waith artistiaid gwydr lliw (gweler yr adran *Adnoddau* ar ddiwedd y nodyn cyfarwyddyd hwn). Ceisiwch gael dyluniad o ansawdd uchel a fydd yn gwella'ch eglwys. Os ydych chi'n hoffi dyluniad, meddyliwch sut y byddai'n edrych yn eich eglwys. Efallai mai dim ond rhai elfennau o'r ffenestri rydych chi'n eu gweld y byddwch chi'n eu hoffi (y lliw, er enghraifft), ond nid y thema. Gwnewch nodyn o'r hyn rydych chi'n ei hoffi gan y gall hyn gael ei gynnwys yn y briff i'r artist. Efallai y byddwch chi'n gallu comisiynu'r un artist i wneud rhywbeth tebyg os yw'n ffenestr gymharol newydd a bod ei stiwdio ar waith o hyd.

Man cychwyn gwych arall yw edrych ar *"Stained Glass from Welsh Churches"* gan Martin Crampin. Mae'r llyfr hardd hwn yn cynnwys lluniau lliw llawn o wydr lliw Cymreig o'r oesoedd canol hyd heddiw. Mae yna wefan yn cyd-fynd ag ef hefyd (gweler yr adran *Adnoddau* ar ddiwedd y nodyn cyfarwyddyd am fanylion).

Os ydych chi'n byw yn y De mae yna lawer o stiwdios gwydr lliw modern o ansawdd uchel yn ardal Abertawe, diolch yn rhannol i Ysgol Wydr Abertawe, sydd ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant bellach (Adran Gwydr Lliw Pensaernïol Prifysgol Fetropolitan Abertawe cyn hyn). Efallai ei bod hi'n werth cysylltu â'r rhain yn uniongyrchol i drafod eu gwasanaethau.

**b) Lleoliad a lefelau golau**

Bydd unrhyw ffenestr gwydr lliw yn lleihau faint o olau sy'n dod i mewn i'r eglwys, felly mae'n bwysig ystyried hyn yn nyluniad cyffredinol y ffenestr. Gall leihau'r golau ychydig neu lawer yn dibynnu ar y cynllun lliwiau, y deunyddiau a ddefnyddir i'w chynhyrchu neu ei lleoliad yn yr adeilad (e.e. wynebu'r gogledd neu'r de).

Yn draddodiadol, y ffenestr ym mhen dwyreiniol eglwys neu gadeirlan oedd y fwyaf a'r mwyaf ysblennydd. Dyma ardal fwyaf cysegredig yr adeilad ac roedd ei lleoliad yn manteisio ar haul cynnar y bore. Yn yr un modd, mae gan ben gorllewinol llawer o eglwysi a chadeirlannau mawr ffenestri mawreddog, er ychydig yn llai o bosibl (gan fod y brif fynedfa ar gyfer gorymdeithiau yn y pen hwn), ond roeddynt yn dal i allu manteisio ar haul diwedd y prynhawn. Er eu bod yn llai, roedd ffenestri ychwanegol ar hyd gogledd a de waliau corff yr eglwys neu'r ystlysau yn cyfrannu at gryn dipyn o olau'n dod i mewn i'r adeilad wrth i'r haul symud o amgylch yr wybren. Nid oedd llawer o eglwysi llai mor lwcus. Roedd y pen gorllewinol yn lleoliad poblogaidd ar gyfer ychwanegu tŵr ac roedd y rhan fwyaf o ffenestri'n dueddol o fod yn llai, gan leihau lefelau golau cyffredinol. Pe bai rhai o'r ffenestri'n cynnwys gwydr lliw, roedd llai fyth o olau'n dod i mewn i'r adeilad hyd yn oed.

Ni fydd lleoliad eich ffenestr gwydr lliw newydd yn broblem os ydych chi'n newid un sydd yno'n barod. Fodd bynnag, os oes gennych chi ddewis o leoliad, er enghraifft os ydych chi'n newid ffenestr â gwydr clir am wydr lliw neu'n bwriadu gosod ffenestr newydd mewn lle newydd (h.y. ble nad oes ffenestr wedi bod o'r blaen), mae'n rhaid i chi ystyried ei lleoliad yn ofalus a faint o olau fydd yn dod i mewn i'r eglwys.

Cynlluniwyd rhai eglwysi (Sioraidd yn aml) â ffenestri gwydr clir mawr, felly bydd newid un neu fwy o'r rhain am wydr lliw nid yn unig yn lleihau faint o olau a ddaw i mewn i'r adeilad yn y fan honno, ond yn effeithio ar y lefelau golau cyffredinol hefyd. Efallai fod yna reswm da dros gael gwydr clir yn y lle cyntaf e.e. roedd adeiladau eraill yn cysgodi'r eglwys neu mae wedi'i lleoli ar lawr dyffryn. Felly dylech roi ystyriaeth arbennig i newid y mathau hyn o ffenestri gan y gallai ffenestr liw newydd effeithio ar gymeriad unigryw'r eglwys.

**c) Gosodiadau, ffitiadau a diogelwch**
Os ydych chi'n newid ffenestr bresennol mae angen i chi a'ch pensaer neu gynghorydd proffesiynol benderfynu pa rannau ohoni fydd yn aros. Dylid cadw gwaith cerrig yn ei le a dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylid ei symud i'w drwsio. Dylid cadw rhwyllwaith a mwliynau i ddarparu cyswllt gweledol â'r ffenestr wreiddiol, cyn belled eu bod mewn cyflwr digon da i gael eu hailddefnyddio. Hyd yn oed os ydych chi'n cadw rhai rhannau o'r hen ffenestr, efallai y bydd angen eu tynnu ar gyfer glanhau neu drwsio, neu er mwyn hwyluso'r gwaith o osod y gwydr newydd.

Os ydych chi'n tynnu'r ffenestr bresennol yn gyfan gwbl, sut bydd y ffenestr newydd yn cael ei gosod (a'i rhoi yn sownd) yn y gofod a adawyd gan yr hen un? Pa ddeunyddiau fydd yn cael eu defnyddio? Ydyn nhw'n gydnaws â'r rhai presennol? Mae angen gofal i beidio â difrodi unrhyw ran o ffabrig presennol yr adeilad wrth osod ffenestr newydd, yn enwedig mewn eglwys gradd I neu II*.

Sut gallwch chi sicrhau y bydd eich ffenestr newydd wedi'i hawyru'n dda i leihau anwedd neu leithder arni? Oes angen cynnwys unrhyw osodiadau neu ffitiadau yn y ffenestr newydd i wella amodau amgylcheddol yn yr eglwys? Er enghraifft, mae awyrellau mewn rhai ffenestr gwydr lliw presennol, y gellir eu hagor neu eu cau i reoli llif yr aer drwy'r adeilad gan leihau lleithder. Mae gan rai "dyllau diferu" yn y siliau hyd yn oed fel bo anwedd yn gallu llifo drwy sianelau i du allan yr adeilad. Hyd yn oed os na allwch gynnwys unrhyw un o'r nodweddion hyn yn y ffenestr newydd, a fyddai'n bosibl ei lleoli mewn ardal sydd wedi'i hawyru'n dda fel wrth ymyl drws neu ffenestr arall sy'n agor?

Efallai y bydd angen i chi ystyried rhyw fath o amddiffyniad allanol i'ch ffenestr newydd. Mae sawl dewis ar gael. Bydd sgrin rwyllog yn cadw'r ffenestr wedi'i hawyru'n dda ac yn ei hamddiffyn rhag y rhan fwyaf o ymosodiadau gan fandaliaid a difrod gan goed cyfagos. Fodd bynnag, dylai fod yn ddigon mân i adael cymaint o olau â phosibl i mewn i'r adeilad. Gall sgrin bolycarbonad roi amddiffyniad rhag fandaliaeth a choed hefyd ond gall fynd yn fwy a mwy di-draidd gydag oedran. Gall annog lleithder hefyd os na fydd wedi'i gosod mewn modd sy'n galluogi awyru'r bwlch rhwng y sgrin a'r gwydr. Opsiwn arall yw gardiau dur gloyw wedi'u gorchuddio â phowdr wedi'u torri i ffitio pob ffenestr a'u gosod yn sownd i uniadau cerrig. Cofiwch fod angen gofal wrth osod sgriniau mewn eglwysi i atal difrod parhaol i ffabrig yr adeilad hanesyddol.

## 3. Dewis dyluniad ac artist

Mae yna sawl ffordd o wneud hyn a phob un â'i fanteision a'i anfanteision. Mae'r canlynol yn trafod yn gryno rai dulliau y gallech fynd ati.

**a) Cystadleuaeth agored**
Ffordd wych o gynnwys y gymuned leol gan y gallwch ofyn am geisiadau gan unrhyw un, boed yn blant ysgol, aelodau'r gynulleidfa, artistiaid proffesiynol ac ati. Fodd bynnag, mae

angen i chi sicrhau eich bod chi'n darparu canllawiau addas ar gyfer cynnwys y dyluniad (e.e. mae'n rhaid iddo ddarlunio stori Feiblaidd) a sut y bydd y ceisiadau'n cael eu beirniadu. Os (fel y trafodwyd eisoes) oes gennych chi grŵp prosiect sy'n cynnwys cynrychiolwyr rhanddeiliaid, nhw fyddai'r dewis rhesymegol i ysgrifennu'r canllawiau a dewis y cais buddugol.

Os ydych chi'n defnyddio'r dull hwn o ddewis dyluniad mae angen i chi ddatgan yn glir wrth y cyfranogwyr y bydd eu cais buddugol yn cael ei ddefnyddio fel *ysbrydoliaeth* ar gyfer datblygu pellach gan artist gwydr lliw proffesiynol. Fel arall, gallai'r enillydd weithio gyda'r artist i greu'r dyluniad terfynol. Drwy wneud hyn gellir osgoi unrhyw dramgwydd i'r enillydd os yw'r cynllun terfynol yr un fath yn union â'r cynllun a gyflwynodd.

**b) Y gymuned yn dewis y dyluniad**
Mae hwn yn amrywiad ar y gystadleuaeth agored. Yma, y gymuned ei hun fyddai'n dewis y cais buddugol. Gellid gwneud hyn drwy arddangos yr holl geisiadau a gofyn i bobl bleidleisio ar yr un maent yn ei hoffi fwyaf. Yr un â'r nifer uchaf o bleidleisiau yw'r enillydd a bydd y dyluniad yna'n mynd ymlaen i'w gynnwys yn y briff. Byddai angen i'r grŵp prosiect ddarparu'r canllawiau o hyd a threfnu i'r dyluniad buddugol gael ei wneud yn ffenestr.

Anfantais y dull hwn yw y gallai dyluniad "anaddas" ennill. Sut byddech chi'n osgoi siomi'r gymuned wedyn? Fel y trafodwyd yn gynharach, gallech ddatgan yn glir y bydd unrhyw gais buddugol yn cael ei ddefnyddiol fel sail ar gyfer y dyluniad a fyddai'n cael ei ddatblygu wedyn gan artist gwydr lliw proffesiynol.

**c) Y gymuned yn dewis yr artist**
Yma, gwahoddir rhestr fer o artistiaid gwydr lliw i gyflwyno enghreifftiau o'u gwaith. Y grŵp prosiect neu'r gymuned sy'n dewis y rhestr fer, a bydd yr artistiaid arni'n cael gwahoddiad i gyflwyno enghreifftiau o'u gwaith. Yna, bydd y gymuned yn pleidleisio ar yr artist yr hoffen nhw ei ddefnyddio i greu'r ffenestr gwydr lliw newydd. Yna bydd yr artist llwyddiannus yn creu'r ffenestr (gan weithio o friff wedi'i ysgrifennu'n dda).

Byddwch yn ymwybodol y gallai fod yna gost yn gysylltiedig â'r dull hwn ac y dylech holi'r artistiaid a fyddant yn codi tâl arnoch chi am unrhyw gostau. Fodd bynnag, ar y cam hwn dim ond gwahoddiad i gyflwyno enghreifftiau o'u gwaith presennol ydyw ac *nid* dyluniad penodol ar gyfer eich ffenestr.

Yr opsiwn mwyaf costus yw rhoi'r briff i nifer o artistiaid (gweler isod) a gofyn iddynt gyflwyno eu dyluniadau sy'n cael eu dewis drwy bleidlais gan y gymuned wedyn. Byddwch yn gorfod talu am gynlluniau pob artist waeth pwy sy'n ennill y comisiwn.

## 4. Y briff dylunio

Wrth gomisiynu artist gwydr lliw mae angen i chi roi briff iddynt yn disgrifio eich gofynion. Mae angen i'r ddogfen gynnwys digon o wybodaeth i'r artist weithio ohoni heb ei lethu â manylion diangen. Ceisiwch gyfyngu'r briff i un neu ddwy ochr o bapur A4 a chynnwys y canlynol:

- Y rheswm am y comisiwn (e.e. coffáu person neu ddigwyddiad lleol)
- Beth mae'r eglwys a'r gymuned yn gobeithio ei gyflawni gyda'r ffenestr (e.e. dod â'r gymuned yn agosach at ei gilydd)

- Beth ddylid ei gynnwys yn y ffenestr (h.y. elfennau allweddol y cynllun)
- Dimensiynau'r ffenestr
- Lleoliad y ffenestr yn yr eglwys a'i pherthynas ag elfennau eraill yr adeilad (ffenestri, dodrefn, arddull bensaernïol ac ati)
- Unrhyw ystyriaethau diwinyddol (pwysig iawn os bydd y ffenestr yn cynnwys cyfeiriadau neu eiconograffeg Feiblaidd)
- Hanes cefndir byr am yr eglwys (cysegriad, hanes pensaernïol ac ati) a'r gymuned (tref neu bentref, trefol neu wledig, demograffeg ac ati)

Dylai'r briff gynnwys digon o wybodaeth i alluogi'r artist i baratoi cynllun cychwynnol a fydd yn cael ei gyflwyno i'r grŵp prosiect (sy'n cynrychioli'r holl randdeiliaid) i'w gymeradwyo. Os nad yw'r artist wedi ymweld â'r eglwys eto, dylai'r cyflwyniad ddigwydd yno. Bydd hyn yn rhoi dealltwriaeth well i'r artist a'r grŵp prosiect o sut y bydd y cynllun yn edrych yn yr adeilad. Mae hefyd yn haws siarad am unrhyw newidiadau i'r dyluniad a chael trafodaeth gychwynnol am gostau, amserlenni, contractau ac ati yn ystod y cam hwn. Peidiwch â llunio unrhyw gytundebau ffurfiol gyda'r artist yn ystod y cam hwn nes eich bod wedi cael cymeradwyaeth hawleb. Hefyd, bydd costau unrhyw waith paratoi a wneir gan yr artist angen eu talu os na fydd y prosiect yn mynd yn ei flaen.

## 5. Gwneud cais am hawleb

Gallai gosod ffenestr gwydr lliw newydd effeithio ar gymeriad arbennig eich eglwys. Mae'n hollbwysig felly eich bod yn darparu cymaint o wybodaeth ag y gallwch am eich prosiect wrth gyflwyno'r cais am hawleb. Trafodwch eich bwriad â'r Archddiacon ac Ysgrifennydd Pwyllgor Ymgynghorol yr Esgobaeth cyn gynted â phosibl. Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwneud hyn ***cyn*** i chi gomisiynu artist gwydr lliw. Gall gair byr gyda nhw arbed llawer o amser ac arian yn ddiweddarach.

Gall Ysgrifennydd Pwyllgor Ymgynghorol yr Esgobaeth neu'r Archddiacon awgrymu ymweliad safle gan y Pwyllgor i drafod eich prosiect. Mae hyn yn rhoi cyfle i chi siarad am eich cynigion gyda phobl wybodus ac yn galluogi Ysgrifennydd Pwyllgor Ymgynghorol yr Esgobaeth i sicrhau y bydd arbenigwr gwydr lliw yn bresennol pan drafodir y cais am hawleb lawn yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor. Cofiwch gynnwys *Ffurflen D: Gwaith i Wydr Lliw* gyda'ch cais.

Mae'r math o ddogfennau y bydd angen i chi eu darparu gyda'ch cais am hawleb (ac ar ba gam y bydd angen i chi eu cyflwyno) yn dibynnu ar lawer o ffactorau fel maint a chymhlethdod y ffenestr newydd a statws rhestredig eich eglwys. Mae'n bwysig iawn felly eich bod chi'n holi Ysgrifennydd Pwyllgor Ymgynghorol yr Esgobaeth beth fydd ei angen a phryd. Fel canllaw cyffredinol, byddwch yn barod i ddarparu'r canlynol i gefnogi'ch cais:

- Cynllun o'r eglwys yn dangos lleoliad y ffenestr newydd
- Ffotograffau clir yn dangos yr ardal lle y gosodir y ffenestr newydd
- Lluniadau cynllun manwl yn cynnwys y dimensiynau, y lliwiau a'r deunyddiau i'w defnyddio
- Datganiad dylunio'n esbonio athroniaeth y cynllun
- Manyleb/rhestr o'r gwaith ar gyfer tynnu'r ffenestr bresennol a gosod yr un newydd
- Datganiadau Arwyddocâd ac Anghenion

**Nodyn:** Efallai na fydd angen i chi ddarparu'r holl ddogfennau uchod gan y bydd hyn yn dibynnu ar ofynion eich esgobaeth chi. Dyna pam ei bod hi'n bwysig siarad ag Ysgrifennydd Pwyllgor Ymgynghorol yr Esgobaeth mor gynnar â phosibl yn eich prosiect!

## 6. Cadw golwg ar gynnydd

Ar ôl i chi gael cymeradwyaeth hawleb gall y gwaith o gynhyrchu a gosod y ffenestr ddechrau. Erbyn hyn dylech fod wedi cytuno ar gostau ac amserlenni cyflawni eisoes, felly gwnewch yn siŵr bod gennych chi gontract addas (neu lythyr penodi) ar waith cyn i unrhyw waith ddechrau gyda'r artist gwydr lliw a/neu'r gwneuthurwr. Mae talu fesul cam yn gyffredin gyda'r math hwn o waith felly mae angen i chi hysbysu pob parti ymlaen llaw pryd fydd taliadau'n cael eu gwneud (pan fydd cam penodol o'r prosiect wedi'i gyrraedd fel arfer).

Mae'n bwysig cytuno ar y ffordd o adrodd am gynnydd. Nid diweddariadau rheolaidd gan yr artist i'r grŵp prosiect yn unig yw hyn, mae'n cynnwys sut y byddan nhw'n adrodd yn ôl i'r rhanddeiliaid hefyd, er y bydd hyn yn cael ei reoli gan faint a chymhlethdod y prosiect i raddau helaeth. Gall derbyn diweddariadau rheolaidd ar gynnydd fod yn amod unrhyw grantiau rydych yn eu derbyn hefyd, felly mae'n bwysig ystyried hyn.

Byddai diweddariadau misol yn ymddangos yn rhesymol ar gyfer adrodd i randdeiliaid a gellid gwneud hynny ar y cyd â digwyddiadau rheolaidd fel cyfarfodydd y Cyngor Plwyf Eglwysig[1] neu foreau coffi. Yn yr un modd, mae angen i'r grŵp prosiect dderbyn diweddariadau rheolaidd gan yr artist, fel y gellir ymdrin ag unrhyw eitemau nas rhagwelwyd sydd angen penderfyniad gan y cleient (h.y. grŵp y prosiect). Dylid ystyried ymweliadau safle gan y ddau barti, yn enwedig gyda chomisiwn mawr.

Mae derbyn diweddariadau rheolaidd nid yn unig yn eich galluogi i sicrhau bod y prosiect ar y trywydd iawn i gael ei gwblhau mewn pryd, ond hefyd i gynllunio ymlaen ar gyfer unrhyw drefniadau sydd angen eu gwneud yn yr eglwys pan fydd y ffenestr yn cael ei gosod yn derfynol. Er enghraifft, efallai fod angen symud rhai corau neu eitemau eraill o ddodrefn dros dro i hwyluso'r gwaith o osod y ffenestr newydd. Bydd angen i chi ddiogelu aelodau'r gynulleidfa ac ymwelwyr tra bydd y gwaith yn digwydd hefyd. Gall hyn olygu codi rhwystrau neu gau'r eglwys yn ystod y gwaith.

## 7. Croesawu'ch ffenestr newydd

Dyma'ch cyfle i ddiolch i bawb a fu'n rhan o'r prosiect ac i'r gymuned gyfarfod y "newydd-ddyfodiad". Mae sawl ffordd o wneud hyn, o gyflwyniad syml gan yr artist yn sôn am ei ysbrydoliaeth ar gyfer y gwaith celf a'r deunyddiau a thechnegau a ddefnyddiwyd i'w greu, i ddathliad diwrnod cyfan yn cynnwys cyflwyniadau gan bawb a fu'n rhan o'r prosiect, byrddau arddangos neu bosteri yn dangos ei gynnydd a pharti i'r gymuned. Gallech wahodd y wasg leol hyd yn oed! Ar ddiwedd y dydd dyma'ch cyfle chi i ddangos beth ellir ei gyflawni drwy gydweithio a mantais hyn i'r plwyf a'r gymuned ehangach.

Gallai'r ffenestr newydd fod yn rhan o gydweithrediad addysg a dysgu ehangach hefyd gydag ysgolion, colegau a grwpiau celf lleol. Efallai fod darparu taflenni gwybodaeth, llyfrynnau, arddangosiadau ac ati wedi bod yn rhan o gynllun gwreiddiol y prosiect, yn enwedig os

[1] Defnyddir y term "Cyngor Plwyf Eglwysig" o fewn y ddogfen hon i ddisgrifio corff ymddiriedolwyr yr eglwys leol sy'n gyfrifol am reoli'r eglwys, y neuadd a'r fynwent. Gellir adnabod y cyrff hyn hefyd fel Cyngor yr Ardal Weinidogaeth, Cyngor yr Ardal Weinidogaeth Leol, Cyngor Bywoliaeth Reithorol, Cynhadledd Ardal Genhadaeth, neu unrhyw derm arall a ddynodir gan bolisïau'r esgobaeth.

darparwyd grant ar ei gyfer drwy arian cyhoeddus. Os mai dyma'r achos, mae angen i chi sicrhau bod yna raglen barhaus o gynnwys y cyhoedd. Does dim rhaid i hyn fod yn dasg anodd na beichus. Meddyliwch amdani fel cyfle i ddangos manteision cadarnhaol gweithio gyda'r gymuned ehangach.

## ADNODDAU

Mae'r gwefannau a'r cyhoeddiadau canlynol yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol am ffenestri gwydr lliw yn cynnwys cronfa ddata o wydr lliw yng Nghymru, dewis a chomisiynu artist, ysgrifennu briff a chroesawu'ch gwaith celf newydd i'r eglwys. Mae adnoddau ar gadwraeth a gofalu am wydr lliw a gwybodaeth am ysgrifennu Datganiad o Arwyddocâd ac Anghenion ar ddiwedd yr adran hon.

### Gwefan Stained Glass in Wales

Mae'r wefan yn cynnwys cronfa ddata gynhwysfawr y gellir chwilio am artist, gweithgynhyrchwr, pwnc (e.e. saint, angylion ac ati), eglwys a lleoliad arni. Mae yna restr o artistiaid gwydr lliw sy'n gweithio yng Nghymru ar hyn o bryd gyda dolenni i'w gwefannau. Dyma'r wefan: http://stainedglass.llgc.org.uk.

### Eglwys Loegr

Mae Eglwys Loegr wedi paratoi canllaw rhagorol ar gomisiynu celf newydd mewn eglwysi ar gyfer plwyfi ac artistiaid. Gellir ei weld yn adran cyngor a chyfarwyddyd eu prif wefan yn: www.churchofengland.org. Mae yna ganllaw arall ar gyfer gwydr lliw yn benodol hefyd, sydd yn yr un adran.

### Eglwys yr Alban

Mae Pwyllgor Celf a Phensaernïaeth Eglwys yr Alban wedi paratoi canllaw ar gomisiynu ffenestr gwydr liw newydd a chreu briff dylunio. Er ei fod wedi'i ysgrifennu ar gyfer cynulleidfa'r Alban, mae'r rhan fwyaf o'r adrannau'n cynnwys gwybodaeth sydd yr un mor berthnasol i gynulleidfa yng Nghymru! Mae yn adran adnoddau eu prif wefan yn: www.churchofscotland.org.uk

### Yr Eglwys yng Nghymru

Mae'r rhan fwyaf o esgobaethau'r Eglwys yng Nghymru'n cyhoeddi canllawiau ar geisiadau hawleb i drwsio, newid neu greu ffenestri gwydr lliw newydd mewn eglwysi. Bydd manylion ar gael ar wefannau'r esgobaethau unigol neu drwy Ysgrifenyddion Pwyllgorau Ymgynghorol yr Esgobaethau. Mae dolenni i wefannau'r esgobaethau ar brif wefan yr Eglwys yng Nghymru yn: https://www.churchinwales.org.uk/cy/

## CADWRAETH A GOFALU AM WYDR LLIW

Mae'r gwefannau a'r cyhoeddiadau canlynol yn darparu cyngor ar ofal cyffredinol a chadwraeth gwydr lliw.

### Cofrestr y Sefydliad Cadwraeth (ICON)

Mae gwefan Cofrestr y Sefydliad Cadwraeth yn cynnwys tudalen ddefnyddiol ar gadwraeth a gofalu am wydr lliw sydd yn eu hadran gyfarwyddyd yn: www.conservationregister.com

Mae'r wefan yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol arall hefyd fel nodiadau cyfarwyddyd y gellir eu lawrlwytho a chronfa ddata o gadwraethwyr ac adferwyr.

**Eglwys Loegr**
Mae Eglwys Loegr wedi paratoi dau ganllaw ar gadwraeth a gofalu am wydr lliw sydd yn adran cyngor a chyfarwyddyd eu prif wefan yn: www.churchofengland.org.

**Historic England (HE)**
Mae HE wedi cynhyrchu cyfres o lyfrau *Practical Building Conservation* sy'n trafod amrywiaeth eang o ddeunyddiau adeiladu. Mae'r llyfr *Glass & Glazing* yn cynnwys adran gynhwysfawr ar wydr lliw, a rhestr dda o gyhoeddiadau "darllen pellach".

**The Heritage Council of Ireland (HCI)**
Mae'r HCI wedi cynhyrchu cyhoeddiad ar ofalu am wydr lliw sy'n cynnwys cyngor i warcheidwaid, argymhellion i gadwraethwyr a diogelu rhag difrod. Gellir ei lawrlwytho o'u prif wefan yn: www.heritagecouncil.ie (teipiwch "stained glass" yn y man chwilio).

**Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol**
Mae gan y *National Trust Manual of Housekeeping* adran fer ar wydr ffenestr sy'n cynnwys cyngor defnyddiol (a syml) ar ofalu am wydr ffenestr hanesyddol.

## DATGANIADAU ARWYDDOCÂD

Bydd gosod ffenestr gwydr liw newydd mewn eglwys yn gofyn am gais hawleb lawn. Mae'r ffurflenni gorfodol ar gyfer hyn yn cynnwys *Datganiad Arwyddocâd* a *Datganiad Anghenion,* a bydd angen cwblhau'r rhain yn llawn. Yn ogystal, bydd angen darparu dogfennau ategol addas (fel y trafodwyd yn gynharach).

Mae'n bwysig iawn bod asesiad o effaith y gwaith yn cael ei gynnwys gyda'ch cais, ac mae yna adran ar y ffurflen Datganiad Arwyddocâd ar gyfer hyn. Fel arall, gallwch chi, neu'ch cynghorydd proffesiynol, ddarparu Datganiad Arwyddocâd ac Asesiad o Effaith Treftadaeth ar wahân i gefnogi'ch cais. Siaradwch ag Ysgrifennydd Pwyllgor Ymgynghorol yr Esgobaeth bob amser cyn dechrau'r cais gan y bydd yn gallu eich cynghori ynghylch y wybodaeth sydd angen ei chynnwys.

Mae'r Eglwys yng Nghymru wedi cynhyrchu dogfen gyfarwyddyd ar wahân, *Cwblhau Datganiad Arwyddocâd ar gyfer System Hawlebau Ar-lein,* y gellir ei chael gan yr Adran Eiddo drwy e-bostio property@churchinwales.org.uk neu ffonio 029 2034 8200.

Tina Andrew
Rheolwr Cadwraeth a Chymorth Eglwysi
Yr Eglwys yng Nghymru
Diweddarwyd 4 Medi 2019